**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Ian Murray AS
Y Gweinidog Gwladol (Gweinidog y Diwydiannau Creadigol, y Cyfryngau a'r Celfyddydau)
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

4 Mawrth 2026

Annwyl Weinidog,

**Darlledu yng Nghymru**

Yn ddiweddar, gwnaeth ein Pwyllgor gwblhau cyfres o sesiynau craffu, yn edrych ar sefyllfa bresennol darlledu yng Nghymru. Roeddem yn siomedig nad oeddech chi nac un o'ch cydweithwyr wedi gallu dod i un o'r sesiynau hyn. Er ein bod yn cydnabod bod darlledu yn bŵer a gedwir yn ôl ar hyn o bryd, mae'n faes sydd ag effaith sylweddol ar feysydd datganoledig a bywyd dinesig yng Nghymru. Rydym yn disgwyl gweld gwelliant yn y broses o ymgysylltu â'r pwyllgor sy'n ein holynu, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd adnewyddu Siarter y BBC i Gymru.

**Mae'r cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol**

Fel Pwyllgor, credwn fod y cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol. Gwnaethom nodi'r casgliad hwn mewn adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2024, sef Y sefyllfa sydd ohoni. Rydym yn parhau i arddel y farn hon yn dilyn ein sesiynau diweddar gyda darlledwyr, academyddion ac Ofcom.

Mae'r lefel annigonol o gynnwys sydd ar gael ar y cyfryngau yn andwyo Cymru ar lefel ddinesig a democrataidd, gan na all pobl weld eu hunain ar eu sgriniau, ac maent yn llai gwybodus am y strwythurau gwleidyddol sy'n rheoli cyfran helaeth o'u bywydau. Mae Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor hwn a'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru i gyd wedi codi pryderon ynghylch y lefel annigonol o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau.

Credwn fod diffyg eglurder o hyd ynghylch sut y bydd unrhyw welliannau sylweddol yn digwydd o ran y cyflenwad o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau. Ymddengys mai diben gweithgarwch rheoleiddio Ofcom yw cynnal y sefyllfa bresennol yn hytrach nag ysgogi gwelliannau. Mae gwaith y BBC ac S4C yn ddarostyngedig i doriadau hirdymor i'w cyllidebau gan Lywodraeth y DU. Ymddengys nad yw ITV o'r farn bod cynyddu darpariaeth i Gymru er budd ei gyfranddalwyr. Yn y pen draw, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am wella'r sefyllfa. Rydym yn galw arnoch i wella'r cyflenwad o gynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau, yn hytrach na rheoli'r sefyllfa bresennol, sy'n ddiffygiol.

Rydym wedi rhestru ein hargymhellion ar gyfer y BBC, S4C, ITV, Channel 4 ac Ofcom yn y llythyrau sydd ynghlwm.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.